

DIGWYDDIADAU YN SIR CONWY

Hydref/Gaeaf 2019



WALES
RALLY GB
A WORLD APART
3-6 OCTOBER 2019



8-10/11

GOLAU GAEAF WINTER LIGHT

16/11 & 14/12



14-17/11



7-29/12



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn
ar gyfer digwyddiadau gwych**

1-30 Medi - Drysau Agored - Ymunwch â ni ar gyfer dathliad blynyddol mwyaf Cymru o bensaerniaeth a threftadaeth. Drwy gydol mis Medi bydd dros 30 o safleoedd ar hyd a lled Sir Conwy yn rhoi mynediad am ddim i'r cyhoedd i'w heiddo. g: cadw.gov.wales

7 Medi - Sioe Cerrig - Gydag atyniadau at ddant pawb a llond y lle o wartheg a defaid a, heb anghofio, hen beiriannau sy'n dal i weithio, cneifio efo gwellaau, pabell cynnyrch cartref a llawer, llawer mwy. Yng Ngherrigydrudion o 9am. g: cerrigshow.co.uk

13 Medi - Ffair Fêl Conwy - Ffair Siarter Frenhinol 700 mlwydd oed gyda stondinau cynnyrch mêl a chychod gwenyn, planhigion a marchnad ffermwyr. Ar y Stryd Fawr, Conwy o 9am ymlaen. g: conwybeekeepers.org.uk

13-15 Medi - LLAWN - Gŵyl gelfyddydol rhad ac am ddim MOSTYN sy'n dathlu ac yn archwilio Llandudno drwy gelfyddyd, arteffactau, comedi, perfformiadau a chymryd rhan. g: llawn.org

3-6 Hydref - Rali Cymru GB - Mae 12fed rownd Pencampwriaeth Rali'r Byd FIA yn rhoi draw i Sir Conwy. Gyda Pharc Gwasanaeth y Rali yn Llandudno; cymal stryd newydd a chyffrous ar lan y môr Bae Colwyn ac arlwy gwefreiddiol yng nghoedwigoedd y Sir, peidiwch â cholli rali eleni os ydych chi'n ffan! g: walesrallygb.com

25-27 Hydref - Gwledd Conwy - Dathliad bythgofiadwy o fwyd, diod, celf a cherddoriaeth Gymreig yn nhref gaerog, ganoloesol Conwy ac ar hyd y cei. g: conwyfeast.co.uk

30 Hydref - Sioe Ddan Gwylt Llandudno - Ymunwch â ni ar gyfer sioe dân gwylt broffesiynol, anhygoel ym Mae Llandudno am 6.10pm. Nodwch fod y digwyddiad yn dibynnu ar y tywydd - Dilynwch Digwyddiadau Conwy am y newyddion diweddaraf.

2-3 Tachwedd - Gŵyl Gerdded Eryri - Penwythnos o deithiau cerdded addas i bawb yn amgylchedd hudol ac unigryw Parc Cenedlaethol Eryri, wedi eu lleoli ym Metws-y-Coed. g: breeseadventures.co.uk

8-10 Tachwedd - Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru - Ymunwch â ni yn Venue Cymru, Llandudno ar gyfer un o ddigwyddiadau corawl mwyaf Cymru. Penwythnos o gystadlaethau a chyngherddau. g: venuecymru.co.uk

9 Tachwedd - Her Llwybr Betws-y-Coed - Yn dechrau o ganol Betws-y-Coed ac yn dilyn llwybr â golygfeydd hyfryd drwy'r goedwig. Ras lwybrau 10k, 5k a canicross. g: trailbetws.com

14-17 Tachwedd - Ffair Nadolig Llandudno - Gyda dros 150 o stondinau mae'r Ffair yn lle gwych i brynu'ch anrhegion Nadolig ac i flasu cynnyrch bwyd a diod lleol. g: llandudnochristmasfayre.co.uk

17 Tachwedd - Hanner Marathon Conwy - Mae hwn ymysg y 5 hanner marathon â'r golygfeydd gorau yn y DU. Mae hanner marathon Conwy bellach yn ei 10fed blwyddyn ac yn cael ei ystyried yn un o'r clasuron. g: runwales.com

7 Rhagfyr - Ras Siôn Corn Llandudno - Digwyddiad i'r teulu cyfan, lle gallwch gerdded, loncian neu redeg 5k. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn derbyn siwt Siôn Corn i'w wisgo. Dechrau am 11am. g: bespokefitnessandevents.co.uk

7 Rhagfyr - Gorymdaith Nadolig Llandudno - Dewch draw i wyllo'r orymdaith Nadolig hudol yma yn teithio drwy Landudno o 4pm. Gydag adloniant tymhorol y tu allan i Neuadd y Dref. g: llandudno.gov.uk

7-8 Rhagfyr - Marchnad Nadolig - Mae'r clychau yn canu yn barod ar gyfer y farchnad Nadolig orau yn Adventure Parc Snowdonia, Dolgarrog gyda cherddoriaeth, syrffio, anrhegion a bwyd gwych. g: adventureparcsnowdonia.com

14 Rhagfyr - Nadolig Canoloesol Conwy - Digwyddiad Nadoligaidd cyffrous gyda diddanwyr stryd, cerddorion, gorymdaith yng ngolau fflaglau a marchogion a'u boneddigesau. g: facebook.com/conwymedievalchristmas

7-29 Rhagfyr - Sleeping Beauty - Yn llawn cynhwysion pantomeim traddodiadol, bydd Sleeping Beauty, yn seren Sherrie Hewson o Benidorm, yn dod yn fyw gyda dawnsfeydd anhygoel, comedi doniol, caneuon gwych a digon o hwyl yr ŵyl. g: venuecymru.co.uk

Evch i conwy.gov.uk/digwyddiadau i weld beth sy'n digwydd yn Sir Conwy a dilynwch ni ar:

[f /digwyddiadauconwy](https://www.facebook.com/digwyddiadauconwy) [@digwyddiadconwy](https://www.instagram.com/digwyddiadconwy)
[s digwyddiadevent](https://www.facebook.com/digwyddiadevent) [@digwyddiadauconwy](https://www.instagram.com/digwyddiadauconwy)

Cyhoeddwyd gan Digwyddiadau Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd yr holl wybodaeth yn gywir ar adeg argraffu.

GOLAU GAEAF WINTER LIGHT

DEFFRO CHWEDLAU A CHREADURIAID
MYTHS & MONSTERS AWAKEN

DIGWYDDIAD CYFAREDDOL I'R TEULU CYFAN
DAW GOLEUNI AR STRAEON SYDD WEDI BOD YN
LLECHU YN Y TYWYLLWCH ERS CANRIFOEDD

PENNOD I - 7PM 16 TACHWEDD
Stryd Mostyn, Llandudno
Noson o berfformio ymdeithiol a gwyllt

PENNOD II - 7PM 14 RHAGFYR
Gerddi'r North Western, Llandudno
Noson o wrando ar straeon anhygoel yn cael eu
hadrodd drwy daflunio goleuadau

DILYNWCH DIGWYDDIADAU CONWY AM Y NEWYDDION DIWEDDARAF

